



Helô a chroeso

Ynni gwyrdd cartref at ddefnydd lleol: yn helpu i ddatgarboneiddio trenau, bysiau, cerbydau nwyddau trwm a diwydiant yng Sir Benfro.

Croeso i'r ymgysylltu cynnar ar ein cynigion ar gyfer Hwb Ynni Gwyrdd cynaliadwy yn Nhrecwân.

Megis dechrau y mae'r prosiect ac rydym am roi'r cyfle i chi ofyn cwestiynau ac amlygu'r pethau allweddol y dylem eu hystyried wrth i ni ddatblygu'r cynigion.

Ni fydd gennym atebion i'ch holl gwestiynau eto, gan fod gennym lawer o waith i'w wneud o hyd gan gynnwys arolygon i lywio Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol. Fodd bynnag, byddwn yn darparu diweddariadau drwy gydol y prosiect a byddwn yn ôl y flwyddyn nesaf gyda'r cais drafft llawn i'w adolygu cyn iddo gael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w benderfynu.

AMSERLEN DDANGOSOL

HYDREF/GAEAF 2022:



Ymgysylltu cynnar ar gynigion sy'n dod i'r amlwg

GWANWYN/HAF 2023:



Ymgynghoriad statudol ar y cynigion manwl

HYDREF 2023:



Cais DNS yn cael ei gyflwyno i PEDW

Yn amodol ar ganiatâd cynllunio, byddai'r gwaith adeiladu'n cymryd tua 15 mis, felly gallai'r cyfleuster fod yn cynhyrchu hydrogen gwyrdd erbyn 2026.

BETH YW EICH BARN CHI?

Rydym am glywed eich meddyliau a'ch awgrymiadau i'n helpu i lunio'r cynlluniau trwy gydol y datblygiad ac archwilio sut y gallwn ni gynyddu'r cyfleoedd a'r buddion.



Dychwelwch y cerdyn ateb wedi'i gwblhau: yn yr arddangosfa neu gan ddefnyddio amlen Rhadbost



E-bost : UKProjects@statkraft.com



Ffoniwch rif rhadffôn y prosiect:
0800 772 0668

Rhowch eich ymatebion i'r ymgysylltu cynnar i ni erbyn 17 Tachwedd 2022.

Am ragor o wybodaeth ac i gofrestru am ddiweddariadau, ewch i www.trecwn-energy.wales



Pam yma?

Lleoliad sy'n ddelfrydol ar gyfer cynhyrchu hydrogen gwyrdd.


Wedi'i leoli i'r de-ddwyrain o Sceddau yng Nghwm Trecwn, mae canolbwynt y safle o fewn Parth Cyflogaeth Strategol, ger Ardal Fenter Dyfrffordd yr Hafan – ardal sy'n canolbwyntio ar ddatblygu cyfleoedd o fewn y sector ynni a'r amgylchedd.

Defnyddiwyd Cwm Trecwn fel Depo Arfau'r Llynges Frenhinol (RNAD) i storio bwledi, a gafodd ei gau a'i werthu ym 1992. Yn ei anterth, roedd y Depo yn cyflogi dros 3,000 o bobl a'r gobaith yw y gallai'r Hwb Ynni Gwyrdd fod yn gatalydd ar gyfer cyfleoedd buddsoddi a chyflogaeth pellach yn Nyffryn Trecwn.

Byddai'r cynigion yn helpu i gefnogi **Strategaeth Sero Net** Llywodraeth Cymru i gynhyrchu cyfwerth â 70% o'r trydan a ddefnyddir yng Nghymru drwy ffynonellau adnewyddadwy erbyn 2030, yn ogystal â chyfrannu at gyflawni'r **Cynllun Gwyrdd Mawr**, sef strategaeth datgarboneiddio Cyngor Sir Penfro.

Byddai'r cyfleuster hydrogen gwyrdd arfaethedig yn cael ei adeiladu ar safle adeilad diwydiannol presennol sydd mewn cyflwr gwael.

Mae'r mynediad presennol i gefnffordd yr A40 a rheilffordd breifat (sy'n arwain at y rheilffordd rhwng Abergwaun a Chaerfyrddin) yn golygu bod mynediad da ar gyfer adeiladu a gweithredu.




Hydrogen gwrdd

Arwain y chwyldro hydrogen gwrdd yn Sir Benfro.


Gan adeiladu ar brofiad o dros ganrif ym maes cynhyrchu ynni adnewyddadwy, mae Statkraft yn llawn cyffro am y posibilrwydd o gynniig hydrogen gwrdd yn y DU i gyfrannu at ddatgarboneiddio yn yr ardal leol.

Mae'r cynnig ar gyfer Hwb Ynni Gwrdd Trecwn yn cynnwys electrolyswr hydrogen gwrdd 15MW, a fyddai'n cael ei bweru gan ynni adnewyddadwy a gynhyrchir fel rhan o'r cyfleuster (gweler y bwrdd nesaf).



Cynhyrchir hydrogen gwrdd gan ddefnyddio ynni adnewyddadwy (fel gwynt a solar) ac electrolysis, gan olygu ei fod yn lân ac yn ddi-garbon: dewis amgen delfrydol i danwyddau ffosil ar gyfer gwres, tanwydd, cynhyrchu trydan, ac yn ddeunydd crai mewn prosesau diwydiannol. Yr unig allyriadau o'r broses yw anwedd dŵr.

Byddai'r safle'n cynhyrchu hyd at bedair tunnell o hydrogen gwrdd y dydd, digon i redeg un bws am dros 40,000 o filltiroedd, neu'r hyn sy'n cyfateb i wneud 350 o deithiau o Abergwaun i Gaerdydd.



Solar a gwynt

Byddai'r cyfleuster hydrogen gwyrdd yn cael ei bweru gan hyd at 14.4MW a gynhrychir gan dri thyrbîn gwynt (ag uchder blaen llafn o hyd at 150m) a hyd at 15MW yn cael ei gynhyrchu gan araeau solar wedi'u gosod ar y ddaear. Byddai hyn yn darparu'r holl ynni sydd ei angen i redeg y cyfleuster hydrogen.

Solar

- 15MW o baneli solar, yn gorchuddio arwynebedd o tua 28 hectar
- Araeau paneli solar sefydlog gyda chyn lleied â phosibl o bolion
- Ardaloedd pori ledled y safle solar



Gwynt

- Tri thyrbîn gwynt 4.8MW hyd at 150m
- Traciau mynediad newydd neu wedi'u huwchraddio
- Tir o amgylch tyrbînau yn parhau i gael ei ddefnyddio at ddibenion amaethyddol llawn



Bydd lleoliad araeau solar a thyrbînau gwynt yn cael ei osod yn dilyn asesiadau a gynhelir fel rhan o'r Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol. Bydd hyn yn cynnwys asesiad o'r effaith weledol a bydd ffotogyfosodiadau yn dangos sut olwg a allai fod arnynt o olygfannau allweddol ar gael yn ystod cam nesaf yr ymgynghoriad. Yn y cyfamser, gweler y map sy'n dangos y Parth Gwelededd Damcaniaethol (ZTV). DS: mae hwn yn seiliedig ar fodel pridd moel ac nid yw'n cynnwys effeithiau sgrinio adeiladau neu lystyfiant.

Cronfa Buddion i'r Gymuned:

Rhagwelir y byddai tua **£73,000*** yn cael ei dalu i Gronfa Buddion Cymunedol bob blwyddyn i gefnogi prosiectau a mentrau lleol. Rhannwch eich barn ar sut y gellid defnyddio a gweinyddu'r Gronfa Budd Cymunedol gan ddefnyddio'r bwrdd awgrymiadau a'r post-its a ddarperir.

*Mae'r ffigur hwn yn seiliedig ar £5,000 y MW o wynt, gan ddefnyddio'r tyrbînau â'r sgôr isaf (4.2MW) a £10,000 o ynni solar.



Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol

Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (AEA) yw'r broses o nodi, asesu a chyflwyno effeithiau amgylcheddol sylweddol tebygol cynnig datblygu er mwyn llywio penderfyniadau cadarn.

Mae deall y potensial ar gyfer effeithiau sylweddol wrth i wybodaeth ddod i'r amlwg drwy'r broses AEA yn caniatáu ar gyfer gweithredu cynnar i osgoi'r effeithiau hyn fel rhan o ddyluniad y prosiect.

Cynhelir arolygon ac asesiadau gan dîm o ymgynghorwyr arbenigol. Bydd y canlyniadau'n cael eu hadrodd yn y Datganiad Amgylcheddol drafft, a fydd yn rhan o'r ymgynghoriad statudol y flwyddyn nesaf.

Yn seiliedig ar brofiad blaenorol o brosiectau ffermydd gwynt, solar a hydrogen eraill a gwybodaeth am y safle, bydd pynciau AEA yn cynnwys:

- Tirwedd a gweledol
- Adareg
- Ecoleg
- Yr amgylchedd dwr
- Priddoedd, daeareg ac ansawdd tir
- Treftadaeth ddiwylliannol
- Sŵn
- Mynediad, traffig a chludo
- Economeg gymdeithasol, twristiaeth a hamdden
- Ansawdd aer

